

EAS

Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru

Rhagoriaeth
Arloesi

# Cenhadaeth Rhanbarth De Ddwyrain Cymru: Cynllun Busnes (2019-2020)

"Trawsnewid deilliannau dysgwyr, creu capasiti drwy rwydweithiau, hwyluso rhagoriaeth mewn addysgu ac arweinyddiaeth"

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Torfaen County Borough / Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Monmouthshire County Council / Sir Fynwy

Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd

15121

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
CYNGOR monmouthshire COUNTY COUNCIL sir fynwy
Newport CITY COUNCIL CYNGOR DINAS Casnewydd
EAS Education Achievement Service for South East Wales Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru

## Cynhaliwyd proses ymgynghori drylwyr cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol o Gynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Dyma restr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw:

- Staff y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Cyfarwyddwyr Addysg (o fewn De-ddwyrain Cymru a Chyfarwyddwyr Esgobaethol
- Y Cyd-grŵp Gweithredol Rhanbarthol
- Bwrdd Cwmni'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Pwyllgorau Craffu'r Awdurdodau Lleol unigol
- Grŵp Strategaeth Penaethiaid Rhanbarthol
- Grŵp Strategaeth Llywodraethwyr Rhanbarthol
- Sampl o athrawon o'r rhanbarth
- Sampl o gynghorau ysgolion o'r rhanbarth

## Mae Cyfarwyddwr Addysg / Prif Swyddog Addysg pob awdurdod lleol, y Cyd-grŵp Gweithredol a Bwrdd y Cwmni wedi cytuno â'r Cynllun:

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd R Jeavons**<br>Cadeirydd Bwrdd Cwmni'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg | |
| **Y Cynghorydd D Yeowell**<br>Cadeirydd y Cyd-grŵp Gweithredol | |
| **Ms D Harteveld**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg | |
| **Mrs Lynette Jones**<br>Y Prif Gyfarwyddwr ar ran Grŵp Cyfarwyddwyr De-ddwyrain Cymru | |

# Cynnwys



| Adran | Ffocws | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | Y Cyd-destun | 3 |
| **2** | Trosolwg | 4 |
| | • Beth mae'r GCA yn ei wneud ar ran yr awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, ac mewn partneriaeth â nhw? | 4 |
| | • Sut mae'r GCA yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i adnabod a mynd i'r afael â'u blaenoriaethau gwella? | 5 |
| | • Modelau cyflwyno rhanbarthol | 5 |
| **3** | Cenhadaeth Ranbarthol De Ddwyrain Cymru: Cynllun Busnes (2019/2020) | 6<br>6 |
| | • Cyflwyniad | 7 |
| | • Blaenoriaethau Strategol Addysg Awdurdodau Lleol 2019/2020 | 9 |
| | • Blaenoriaethau Rhanbarthol ar gyfer 2019/2020 | |
| | • Yr uchelgais ranbarthol erbyn 2021 | 10 |
| | • Cenhadaeth Ranbarthol De Ddwyrain Cymru: Cynllun Busnes (2019/2020): Meysydd i'w Gwella | 10 |
| **4** | Llywodraethu ac ariannu | 19 |
| | • Monitro a gwerthuso | 19 |
| | • Rhagolwg Ariannol y GCA 2019-2020 | 19 |
| **5** | Dogfennau cefnogol ychwanegol | 20 |
| | Geirfa | 20 |

# 1. Y Cyd-destun Rhanbarthol

Y GCA yw'r gwasanaeth gwella ysgolion ar gyfer y pum awdurdod lleol (ALl) yn Ne-ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen). Roedd 71,970 o ddisgyblion oedran ysgol gorfodol yn 2018 sef 19% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru. Mae 234 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, sef 15% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (ffigurau'r GCA fel ar fis Medi 2018, ffigurau Cymru yn ôl CYBLD, 2018). Canran y disgyblion oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD) yw 18.4%, sy'n uwch na'r ganran genedlaethol, sef 17.4%. Hon yw'r ganran uchaf ond un o'r pedwar consortia rhanbarthol (CYBLD, 2018).  Yn y rhanbarth, mae 10% o bobl tair oed neu hŷn yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19% (Cyfrifiad 2011, ONS). Mae 10.3% o ddisgyblion 5 oed a hŷn yn dod o dras lleiafrif ethnig, cynnydd o ffigwr 2017, sef 9.7%. Mae'r cynnydd hwn yn debyg i'r cynnydd drwy Gymru (sydd wedi codi o 10.1% i 11.0%). Yn ôl CYBLD 2018, roedd 983 o blant yn y rhanbarth yn derbyn gofal gan ALl ac yn ddisgybl yn un o ysgolion y rhanbarth. Mae hyn yn cyfateb i 15% o'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

**Blaenau Gwent** (22.7% PYD)

| | Nifer |
|---|---|
| Lleoliadau Meithrin nas cynhelir | 2 |
| Cynradd | 19 |
| Uwchradd | 2 |
| Arbennig | 2 |
| 3-16 | 2 |

**Sir Fynwy** (10.9% PYD)

| | Nifer |
|---|---|
| Lleoliadau Meithrin nas cynhelir | 29 |
| Cynradd | 30 |
| Uwchradd | 4 |
| Arbennig | 1 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |

**Caerffili** (20.3% PYD)

| | Nifer |
|---|---|
| Lleoliadau Meithrin nas cynhelir | 12 |
| Cynradd | 63 |
| Babanod | 6 |
| Iau | 4 |
| Uwchradd | 11 |
| Arbennig | 1 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |
| 3-18 | 1 |




**Torfaen** (18.8% PYD)

| | Nifer |
|---|---|
| Lleoliadau Meithrin nas cynhelir | 16 |
| Cynradd | 25 |
| Uwchradd | 6 |
| Arbennig | 1 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |

**Casnewydd** (17.8% PYD)

| | Nifer |
|---|---|
| Lleoliadau Meithrin nas cynhelir | 24 |
| Meithrin | 2 |
| Cynradd | 42 |
| Uwchradd | 9 |
| Arbennig | 2 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 1 |

# 2. Trosolwg

## Beth mae'r GCA yn ei wneud ar ran Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill, ac mewn partneriaeth â nhw?

Mae'r GCA yn gwmni cyfyngedig nid-er-elw sydd ym mherchnogaeth y pum ALl yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae'r GCA yn cyflwyno ystod eang o wasanaethau gwella ysgolion, drwy Gynllun Busnes cytûn, i'r holl ysgolion (pob cyfnod allweddol), unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir ar ran pob ALl. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi'r rôl sydd gan ALlau wrth gyflwyno eu swyddogaeth statudol, gan fynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwella unigol a hyrwyddo gwell deilliannau i ddisgyblion. Mae'r Cynllun Busnes hwn yn cwmpasu'r gwaith a wneir ar draws yr agweddau a ganlyn:

- Monitro, herio, cefnogi ac ymyrraeth
- Diwygio cwricwlwm, asesu ac atebolrwydd
- Casglu a dadansoddi data a chefnogi (ysgolion, ALl, rhanbarth)
- Dysgu Proffesiynol: Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Dysgu Proffesiynol: Cymorthyddion Dysgu / Cymorthyddion Dysgu Lefel Uwch
- Tegwch a llesiant
- Llythrennedd, rhifedd a digidol
- Datblygu'r Gymraeg
- Pynciau craidd a di-graidd
- Cefnogaeth i gyrff llywodraethu yn cynnwys dysgu proffesiynol
- Strategaethau cenedlaethol, i gynnwys: Ysgolion Creadigol Arweiniol, Dyfodol Byd-eang
- Cefnogaeth AD arbenigol
- Addysg Gychwynnol i Athrawon / Rhaglen Athrawon Graddedig

Bydd y GCA yn gweithio'n agos â'r holl bartneriaid allweddol i sicrhau y caiff y Cynllun Busnes ei wireddu ac er mwyn cael yr effaith fwyaf wrth ei gyflwyno. Mae gweithredu'r haenau, a nodir isod, wedi'i wreiddio yn y ffordd y byddwn yn parhau i weithio ar draws y sectorau.

**Haen1**

**Llywodraeth Cymru**
- Cynllunio a llunio polisïau – drwy gydweithio ar sail tystiolaeth.
- Rheoli modelau atebolrwydd o fewn y broses ddemocrataidd.
- Ymgysylltu â'r holl haenau a chefnogi adeiladu capasiti ar gyfer gwella systemau.

**Haen 2**

**Pedwar consortiwm rhanbarthol, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor Gweithlu Addysg, byrddau arholi ac addysg uwch**
- Defnyddio eu gwybodaeth am ysgolion ac ymchwil i hwyluso a chefnogi rhannu arfer da a chydweithio i wella deilliannau i ddysgwyr, o fewn system ysgol sy'n hunan-wella.

**Haen 3**

**Ysgolion**
- Gweithio ar y cyd i ddarparu'r ystod o brofiadau i blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i wella eu dysgu a'u llesiant.

## Sut mae'r GCA yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i adnabod a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwella?

Mae buddsoddiad rhanbarthol mewn adeiladu capasiti ysgolion a lleoliadau addysgol dros y pum mlynedd diwethaf wedi hwyluso ffyrdd mwy cydweithredol o weithio. Mae'r dull hwn yn galluogi athrawon ac arweinwyr ddysgu oddi wrthynt ei gilydd, rhoi cynnig ar ddulliau newydd ac ymgysylltu ag ymchwil addysgol fel cefnlen i welliannau. Ledled y rhanbarth, bellach mae amrywiaeth o ffyrdd y mae'r GCA yn cefnogi ac yn herio gwella ysgolion. Caiff effaith ac effeithiolrwydd y strategaethau eu hadolygu'n rheolaidd drwy brosesau mewnol ac allanol fel ei gilydd.

Mae crynodeb o'r strategaethau cefnogol hyn fel a ganlyn:

- Rôl yr ymgynghorydd her wrth gefnogi, brocera a herio cyflymder y cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod i'w hysgolion;
- Rôl swyddogion y GCA (yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer pynciau penodol, cefnogaeth i lywodraethwyr, llesiant a thegwch) wrth gefnogi, brocera a herio cyflymder y cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod i'w hysgolion;
- Mynediad i rwydweithiau ysgolion a ariannir sy'n cefnogi pob agwedd ar ddatblygiad proffesiynol a gwella ysgolion sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r dysgu a'r addysgu;
- Mynediad i ystod eang o ddysgu proffesiynol, rhai gydag opsiynau achredu, ar gyfer cymorthyddion dysgu, athrawon, arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr;
- Gweithio gyda chyfoedion ac adolygiadau gan gyfoedion;
- Defnydd o gymhellwyr a mentoriaid wedi'u hyfforddi a'u hachredu ar gyfer athrawon ac arweinwyr, a ddaw o'r tu mewn a thu hwnt; a
- Mynediad i ddeunyddiau e-ddysgu ac adnoddau o safon uchel.

## Modelau cyflwyno rhanbarthol

Mae GCA yn trefnu rhan fwyaf y cynnig dysgu proffesiynol ar sail clwstwr. Mae gan bob clwstwr arweinydd sydd wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol, sy'n trefnu ac yn cydlynu cefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol, a mynediad iddo, ledled y clwstwr. Mae gan bob ysgol arweinydd dysgu proffesiynol a ariannir yn rhanbarthol, sy'n cydlynu'r gwaith hwn ar sail ysgol. Hefyd, trefnir cefnogaeth drwy'r nifer o ysgolion rhwydwaith dysgu ar sail ddaearyddol i gefnogi'r model cyflwyno hwn.

Mae'r arweinydd dysgu proffesiynol ar sail clwstwr hefyd yn rhoi diweddariadau a deunyddiau datblygu i ysgolion o fewn y clwstwr i gefnogi'r holl flaenoriaethau allweddol o fewn y Genhadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys: ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth/Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth. Dosberthir y gwaith hwn i'r holl ysgolion / ymarferwyr drwy eu harweinwyr dysgu proffesiynol enwebedig.

Hefyd, mae gan bob clwstwr ysgol arloesi cwricwlwm gysylltiedig, sy'n cefnogi cyflwyno gwybodaeth allweddol a drafftiau diweddaraf/negeseuon allweddol yn rhanbarthol, yng nghyswllt y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae GCA yn trefnu sesiynau briffio rheolaidd gydag arweinwyr dysgu proffesiynol, penaethiaid, cadeiryddion llywodraethwyr a phartneriaid ALl i sicrhau bod negeseuon, dealltwriaeth a rolau a chyfrifoldebau neilltuol yn gyson mewn meysydd gwaith allweddol.

# 3: Cynllun Busnes 2019/2020:

## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Busnes hwn (2019/2020) yn amlinellu'r rhaglen waith sydd ei hangen i barhau i gyflymu deilliannau a darpariaeth i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau ac ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr angen i godi dyheadau a chyflymu gwelliannau mewn deilliannau disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth, cefnogi ysgolion i wireddu'r agenda diwygio cenedlaethol a pharhau i adeiladu ar y system hunan-wella o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau.

Mae blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn deillio o Gynlluniau Strategol yr ALl, y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y Cynllun Busnes blaenorol (fel y nodir yn y ddogfen hunan-arfarnu ranbarthol), a'r meysydd sydd wedi'u hadnabod fel eu bod angen gwelliannau drwy brosesau hunan-arfarnu mewnol, ymchwil allanol ac adborth gan Estyn.

### Mae blaenoriaethau Cynllun Busnes y GCA yn parhau i gael eu siapio gan ddefnyddio deilliannau adolygiadau ac ymchwil allanol:

**Y Rhaglen Dysgu Proffesiynol: Adroddiad Ymchwil.** (Yr Athro David Egan - Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

**Ymchwil i grwpiau rhwydwaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a'u heffaith ar arweinyddiaeth** (ARAD)

**Mapio effaith ymyriadau addysgol.** (Prifysgol Stirling)

**Datblygu ymagweddau at wella ysgolion sydd yn seiliedig ar glystyrau.** (Yr Athro Moira Hulme - Prifysgol Manchester Metropolitan)

**Cyflenwi gwasanaethau datblygu drwy Rwydweithiau Ysgolion sy'n Dysgu.** (Yr Athro Brett Pugh - Prifysgol De Cymru)

**Cyflenwi cefnogaeth wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer newidiadau i fanylebau'r cwricwlwm TGAU.** (Yr Athro David Egan - Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

**Adroddiad Gwerth am Arian 2017-2018** (Rod Allcot)

**Sylwebaeth ar agweddau ar waith y GCA ynghyd ag argymhellion i'w hystyried.** (Yr Athro Mick Waters)

## Blaenoriaethau strategol addysg ALl 2019/20
## (a ddarperir gan bob ALl)

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn mynd i'r afael â blaenoriaeth strategol pob awdurdod lleol sydd wedi'u dynodi â *. Mae'r blaenoriaethau hyn yn disgyn o fewn cylch gorchwyl gwaith y GCA. Yn ychwanegol, bydd y GCA yn gweithio mewn partneriaeth ag ALlau i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel sy'n briodol.

Mae angen ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth er mwyn i'r gwelliannau sydd eu hangen ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol fod yn llwyddiannus. Lle mae awdurdodau lleol a'r GCA yn gweithio'n agos mewn partneriaeth, mae tystiolaeth y gellir cyflawni gwelliannau cyflym a chynaliadwy i ysgolion, yn benodol yng nghyswllt ysgolion sy'n peri pryder.

| ALl | Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2019/2020 | Prif gyswllt i'r meysydd i'w gwella o fewn y Cynllun Busnes |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | Gwella Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, drwy gyflymu caffaeliad sgiliau iaith cynnar, yn y Cyfnod Sylfaen. * | Maes i'w wella: 1 a 2 |
| | Gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn Saesneg a mathemateg ym mhob cyfnod allweddol. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Sefydlu gwaelodlin o gyrhaeddiad ôl-16, ychwanegu gwerth o gyfnod allweddol 4 a chyrchfannau cadarnhaol yn y dyfodol. * | Maes i'w wella: 3 |
| | Lleihau absenoldebau cyson, yn benodol mewn ysgolion uwchradd ac felly gwella presenoldeb uwchradd. | Maes i'w wella: 2 a 3 |
| | Lleihau nifer y disgyblion sy'n dewis cael eu haddysgu adref ac, felly, leihau nifer y disgyblion sy'n dod yn NEETS. | Maes i'w wella: 3 |

| | | |
|---|---|---|
| **Caerffili** | Gwella perfformiad cyfnod allweddol 4. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth yn y cyfnod uwchradd er mwyn gwella cyfradd y cynnydd. * | Maes i'w wella: 1 a 2 |
| | Lleihau nifer y dyddiau a gollir yn sgil gwaharddiadau. | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Gwella presenoldeb. | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |

| | | |
|---|---|---|
| **Sir Fynwy** | Gwella deilliannau grwpiau bregus, yn cynnwys dysgwyr PYD, yn benodol yng nghyfnod allweddol 4.* | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Lleihau amrywiaeth mewn deilliannau, addysgu ac arweinyddiaeth, yn benodol yng nghyfnod allweddol 4, gan ddefnyddio'r Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dysgu fel teclyn ar gyfer gwella. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Cryfhau capasiti arweinyddiaeth mewn ysgolion sydd wedi'u hadnabod. * | Maes i'w wella: 1 a 2 |
| | Sicrhau cynnydd priodol i ddysgwyr ar draws yr ystod lawn o alluoedd gwybyddol y disgyblion. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol. | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |

| | | |
|---|---|---|
| **Casnewydd** | Gwella deilliannau i ddysgwyr PYD. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Yng nghyfnod allweddol 4, datblygu gwelliannau arweinyddiaeth uwch a chanol yn y pynciau sylfaen ehangach: dysgu proffesiynol, lefelau atebolrwydd, datblygu cwricwlwm, deilliannau addysgu a dysgu yn gyson â rhai'r pynciau craidd. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Sicrhau ymagwedd gyson i ddarpariaeth ADY drwy ddatblygu a gweithredu fframwaith Adolygu ADY mewn cydweithrediad â gwasanaethau cynhwysiad yr Awdurdod Lleol. | Maes i'w wella: 2 |
| | Lleihau absenoldeb cyson, yn benodol mewn ysgolion uwchradd, ac felly gwella presenoldeb uwchradd. | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |

| | | |
|---|---|---|
| **Torfaen** | Gwella perfformiad disgyblion PYD ar draws yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Lleihau'r bwlch rhwng bechgyn a merched yn y dangosyddion perfformiad allweddol, yn benodol tanberfformiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Lleihau lefel yr amrywioldeb yn neilliannau cyfnod allweddol 4 rhwng yr ysgolion uwchradd sy'n perfformio uchaf ac isaf yn yr awdurdod. * | Maes i'w wella: 1, 2 a 3 |
| | Lleihau lefel yr amrywioldeb yn ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth ar bob lefel yn ysgolion uwchradd yr awdurdod. * | Maes i'w wella: 1 |
| | Datblygu goruchwyliaeth glir o safonau llesiant dysgwyr bregus ar draws yr holl leoliadau yn yr awdurdod. | Maes i'w wella: 2 |

Bellach, mae gan pob maes i'w wella o fewn y cynllun hwn bwyslais penodol ar waith y GCA wrth hyrwyddo gwell deilliannau i ddysgwyr bregus, yn benodol y rheini sy'n derbyn PYD. Mae'r strategaethau hyn yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth ymchwil. Bydd yn bwysig bod gan yr holl randdeiliaid eraill, yn cynnwys ysgolion ac ALlau, eu strategaethau penodol eu hunain i gefnogi a hyrwyddo gwell deilliannau i ddysgwyr bregus. Bydd y GCA yn ymdrechu, fel sy'n briodol, ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael, i gefnogi cynlluniau strategol yr ALl er mwyn gwneud y mwyaf o'u heffaith ar ddeilliannau dysgwyr.

## Blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer 2019/2020

**Ffocws gwelliannau ar gyfer 2019/2020 bydd sicrhau gwelliannau pellach yn y meysydd a ganlyn:**

- Darparu mynediad i ysgolion a lleoliadau i ystod eang o ddysgu proffesiynol a chyngor a chyfarwyddyd i gefnogi: gwireddu'r cwricwlwm a'r agenda diwygio ehangach yn llwyddiannus, gweithredu'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddion a gweithredu'r fframwaith hunan-arfarnu cenedlaethol;
- Hwyluso a sicrhau ansawdd cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol i alluogi rhannu arfer gorau o fewn a'r tu hwnt i'r rhanbarth, gan sicrhau bod gan yr holl ysgolion a lleoliadau fynediad i ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella eu harfer yn barhaus ac anelu am ragoriaeth;
- Parhau i godi dyheadau, gwella deilliannau disgyblion (yn benodol ar gyfer grwpiau o ddysgwyr bregus: FSM, rhywedd, Saesneg fel dysgu ychwanegol, plant mwy abl a phlant mewn gofal) a lleihau'r amrywioldeb o fewn ac ar draws ysgolion (yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd), lleoliadau ac ALlau;
- Cyflymu gwelliannau mewn ysgolion a lleoliadau lle mae gwelliant yn parhau'n rhy araf, yn benodol yn y cyfnod uwchradd, drwy sicrhau ymyrraeth a chefnogaeth gynharach a chefnogi'r defnydd o bwerau statudol awdurdodau lleol i gyflymu cynnydd;
- Darparu ystod o ddysgu proffesiynol a chefnogaeth bwrpasol i leihau'r amrywiad o fewn ac ar draws ysgolion sydd wedi'u hadnabod, yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd, a gwella ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu, yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd ar draws yr holl adrannau;
- Cefnogi ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol ym mhob cyfnod;
- Gwreiddio a diwygio'r Strategaeth Tegwch a Llesiant i wella gweithio'n amlasiantaethol yn rhanbarthol, i leihau dyblygu a symleiddio'r cynnig cefnogaeth i ysgolion a lleoliadau i ddysgwyr dan anfantais;
- Datblygu ymhellach y strategaeth ranbarthol i ddatblygu system hunan-wella drwy'r clwstwr, y rhwydweithiau, yr ysgolion rhwydwaith dysgu a'r modelau gweithio cyfoedion; a
- Gweithio gyda phartneriaid haen-ganol i weithredu'r trefniadau newydd ar gyfer atebolrwydd a sicrhau ymagwedd lefn i'r agenda diwygio.

## Yr uchelgais ranbarthol erbyn 2021

**Gan weithio gyda'n partneriaid allweddol, byddwn yn anelu i drawsffurfio'r deilliannau addysgol a'r cyfleoedd mewn bywyd i holl ddysgwyr ledled De-ddwyrain Cymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy:**

- Sicrhau profiadau dysgu llwyddiannus a lefelau uchel o lesiant, yn benodol i'r dysgwyr hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf;
- Adeiladu rhwydweithiau effeithiol o weithwyr proffesiynol ar draws y pum awdurdod lleol a'r tu hwnt, a chydweithio i wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu; a
- Denu a chadw tîm o bobl eithriadol sy'n gwreiddio ein gwerthoedd craidd yn eu gwaith ac yn rhannu eu hangerdd dros ragoriaeth.

## Cenhadaeth Ranbarthol De Ddwyrain Cymru: Cynllun Busnes (2019/2020)

Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys o fewn y cynllun yn cyd-fynd â dogfen strategol Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl (Cynllun Gweithredu 2017/2021), ac yn seiliedig ar gasgliadau ymchwil addysgol ac arfer gorau ac yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yng nghynllun strategol pob ALl. Mae pob maes i'w wella yn rhoi manylion am y camau gweithredu a fydd yn cefnogi gwireddu'r cwricwlwm trawsffurfiol cenedlaethol newydd a'r trefniadau asesu yn llwyddiannus.

| **Maes i'w Wella 1** | **i) Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel**<br>**ii) Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio ar y cyd i godi safonau** |
|---|---|

**Pa gamau gweithredu y bydd y GCA yn eu cymryd?**

**A. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel**

- Gwreiddio egwyddorion yr ymagwedd genedlaethol i ddysgu proffesiynol yn yr holl raglenni rhanbarthol;
- Darparu rhaglen gefnogaeth ranbarthol gydlynol sy'n cael ei harwain gan gyfeiriad cenedlaethol ar gyfer holl agweddau ar ddiwygio'r cwricwlwm, i gynnwys cefnogi ysgolion i ddatblygu fel 'Sefydliadau Dysgu'. Sicrhau y caiff hyn ei gyfathrebu'n effeithiol i'r holl weithwyr proffesiynol allweddol;
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i benaethiaid, arweinwyr uwch, athrawon a staff cefnogol ar y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Arweinyddiaeth i gefnogi gweithredu'r Safonau Proffesiynol a chefnogi gwelliannau parhaus yn ansawdd deilliannau arweinyddiaeth, addysgu a disgyblion;
- Gweithredu'r strategaethau rhanbarthol ar gyfer: datblygu'r Gymraeg, llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, y Cyfnod Sylfaen, gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), dyfodol byd-eang ac ôl-16;
- Ymestyn a chefnogi'r cyfleoedd datblygu ar gyfer adrannau craidd a di-graidd o fewn y cyfnod uwchradd a gwellia deilliannau, ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth a lleihau amrywiaeth o fewn ac ar draws ysgolion;

- Cyflwyno, sicrhau ansawdd ac adolygu effaith y rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol a ganlyn: llwybrau i weithwyr cefnogi dysgu (i gynnwys cyflwyno'r rhaglen achredu ar gyfer cymorthyddion dysgu lefel uwch) a'r rhaglen ranbarthol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso; a
- Datblygu rhaglenni ar gyfer gwahanol lwybrau i mewn i addysgu a pharhau i gefnogi'r rhaglenni ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon drwy bartneriaethau presennol a rhai newydd gyda sefydliadau addysg uwch.

**B. Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio ar y cyd i godi safonau**

- Darparu portffolio eang o gyfleoedd datblygu arweinwyr (a gymeradwyir, fel sy'n briodol, gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol) sy'n bodloni anghenion yr holl sectorau, a gyflwynir mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch, consortia a sefydliadau haen-ganol eraill;
- Mewn partneriaeth a chonsortia, sefydliadau addysg uwch ac ALlau, cyflwyno Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) i ddarparu paratoad mwy effeithiol ar gyfer prifathrawiaeth;
- Darperir cyfleoedd cynlluniedig ar gyfer arweinwyr sy'n cael eu hadnabod i: brofi lefelau arweinyddiaeth nad ydynt wedi medru eu cael yn eu hysgolion eu hunain; profi arweinyddiaeth mewn cyd-destun gwahanol i'r un eu hunain; torri'r rhwystrau rhwng cyfnodau a gwahanol gyd-destunau;
- Adnabod a datblygu carfan ranbarthol sy'n tyfu o ddarpar arweinwyr, penaethiaid sy'n gweithio ar hyn o bryd a phenaethiaid profiadol i ehangu cyfleoedd arwain ar draws y system;
- Mewn partneriaeth â chonsortia a sefydliadau addysg uwch, darparu rhaglen fentora a chymell i ddatblygu a chefnogi arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion;
- Cynnig cytundeb lefel gwasanaeth mwy hyblyg i gyrff llywodraethu sy'n cynnwys: rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr i lywodraethwyr; mynediad i'r fframwaith rhagoriaeth mewn llywodraethu rhanbarthol, i gynnwys system gadarn i werthuso effeithiolrwydd cyrff llywodraethu; trefniadau cefnogi a mentora ar gyfer cyrff llywodraethu sydd angen gwelliannau; a,
- Darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol a chefnogaeth i arweinwyr ysgolion o'r cynllun gwasanaeth AD arbenigol rhanbarthol (mewn partneriaeth â gwasanaethau AD ALlau) sy'n cefnogi gweithredu'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arwain.

**C. Ffocws penodol ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr bregus**

- Hwyluso sesiynau dysgu proffesiynol bob hanner tymor gyda'r arweinwyr ysgol enwebedig ar gyfer dysgwyr bregus ym mhob ysgol uwchradd, gyda ffocws ar wella adnabod, olrhain a gosod targedau, darpariaeth a chyflymder y cynnydd ar gyfer dysgwyr bregus;
- Defnyddio profiad traws-ranbarthol ac ehangach o arfer effeithiol i rannu strategaethau llwyddiannus ar yr hyn sy'n gweithio i wella darpariaeth a deilliannau mewn cyd-destunau gwahanol, gan sicrhau bod y Education Endowment Foundation Toolkit yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio ledled y rhanbarth;
- Darparu mynediad i adnoddau ar-lein, dogfennau canllaw a fframweithiau adnoddau i gefnogi cynllunio strategol a gwneud y defnydd gorau o arian grant i wella cynnydd grwpiau o ddysgwyr bregus;

- Sicrhau bod yr holl raglenni sefydlu a dysgu proffesiynol sy'n cael eu harwain yn rhanbarthol yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o dlodi ac anfantais a'r rôl sydd gan ysgolion mewn codi cyflawniad dysgwyr bregus; a
- Gwreiddio'r cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer llywodraethwyr ar herio defnydd ac effaith y grant datblygu disgyblion ac adnoddau eraill a glustnodir ar gynnydd a deilliannau dysgwyr bregus.

**Sut fyddwn ni'n gwybod a fyddwn ni wedi gwneud cynnydd erbyn mis Mawrth 2020?**

**A. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel**

- Bydd yr holl ysgolion wedi ymgysylltu gyda'r ymgynghoriad a bydd ganddynt ddealltwriaeth dda o Gwricwlwm Cymru drafft ac maent yn gweithredu eu cynlluniau dysgu proffesiynol i baratoi'r gweithlu gan ddefnyddio deunyddiau cefnogol cenedlaethol a rhanbarthol;
- Bydd yr holl ddysgu proffesiynol rhanbarthol wedi'i danategu gan nodweddion y model dysgu proffesiynol rhanbarthol a'r ymagwedd genedlaethol i ddysgu proffesiynol;
- Bydd y rhan fwyaf o ysgolion ledled y rhanbarth wedi ymgysylltu gyda'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol i gefnogi datblygu eu hysgol fel sefydliad dysgu gan ddefnyddio deilliannau yn effeithiol i hysbysu hunanwerthuso;
- Bydd bron bob clwstwr yn darparu dysgu proffesiynol o safon uchel i gefnogi gweithredu'r ymagwedd ranbarthol i'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a'r holl raglenni cyflwyno cerrig milltir cysylltiedig sy'n galluogi i ysgol wella ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a deilliannau'r disgyblion;
- Lle mae ysgolion yn ymgysylltu'n dda gyda'r cynnig dysgu proffesiynol eang, byddant wedi'u harfogi'n addas gydag ystod o strategaethau i sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr;
- Lle mae ysgolion (yn benodol ysgolion uwchradd) yn ymgysylltu'n dda gyda dysgu proffesiynol rhanbarthol pwrpasol ac ehangach ar gyfer datblygu addysgu ac arweinyddiaeth bydd yr ysgol wedi'i leoli'n well i leihau amrywiadau o fewn yr ysgol gan sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol gyda gwella deilliannau;
- Bydd y rhan fwyaf o glystyrau wedi cael aelod o staff wedi'i hyfforddi drwy'r cynllun sabothol Cymraeg mewn blwyddyn ac yn cael effaith ar eu hysgol a'r tu hwnt;
- Bydd yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg a bron bob ysgol cyfrwng Saesneg yn arddangos cynnydd priodol yn erbyn amcanion fframwaith y Siarter Iaith Genedlaethol;
- Bydd yr holl ysgolion uwchradd a chyfran gynyddol o ysgolion cynradd yn ymgysylltu gyda'r fenter Dyfodol Byd-eang;
- Bydd ysgolion cyswllt partner yn parhau i gefnogi cyflwyno addysg gychwynnol i athrawon, mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch perthnasol i wireddu'r llwybrau newydd i mewn i hyfforddiant athrawon o 2019 ymlaen; a
- Bydd model effaith hydredol a sicrwydd ansawdd rhanbarthol cadarn ar gyfer yr holl ddysgu proffesiynol wedi'i weithredu.

**B. Arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio ar y cyd i godi safonau**

- Lle mae arweinwyr yn ymgysylltu'n llawn yn y rhaglenni arweinyddiaeth rhanbarthol, byddant wedi datblygu sgiliau a gwybodaeth ar gyfer eu rolau cyfredol a'u dyheadau arwain yn y dyfodol;
- Lle mae arweinwyr yn ymgysylltu gyda'r ystod o ddysgu proffesiynol sy'n cynnwys gweithio gyda chyfoedion, cysgodi arweinwyr a chymell a mentora o fewn a'r tu allan i'r rhanbarth, gall arweinwyr rannu a datblygu ymarfer i wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu o fewn eu cyd-destunau eu hunain, yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd;

- Bydd system ranbarthol o adnabod, olrhain a chefnogaeth dysgu proffesiynol i ddarpar arweinwyr wedi'i gweithredu sy'n caniatáu i arweinwyr sicrhau cyfleoedd a phrofiadau dysgu proffesiynol amserol fel y gallant symud ymlaen drwy gerrig milltir arweinyddiaeth dros amser;
- Bydd magwedd draws-ranbarthol a phartneriaeth addysg uwch i gymell a mentora wedi'i chreu i gefnogi'r holl raglenni dysgu proffesiynol i ddatblygu a chefnogi arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion;
- Lle mae ysgolion yn ymgysylltu gyda chefnogaeth AD arbenigol, yn cynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol, bydd hyn yn galluogi i arweinwyr weithredu'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn effeithiol drwy drefniadau rheoli perfformiad priodol;
- Bydd prosesau recriwtio arweinyddiaeth wedi'u hadolygu, a bydd dulliau asesu wedi'u diweddaru yn cael eu gweithredu gan gyrff llywodraethol ledled y rhanbarth i gefnogi penodiadau o safon i swyddi penaethiaid a dirprwy benaethiaid; a
- Lle mae cyrff llywodraethol yn ymgysylltu mewn dysgu proffesiynol, hunan-arfarnu ar-lein neu raglenni cefnogi pwrpasol, byddant wedi cynyddu eu gallu i ymgymryd â'u rôl wrth herio a chefnogi arweinwyr ysgolion i sicrhau gwelliannau.

**C. Ffocws penodol ar wella'r deilliannau i ddysgwyr bregus**

- Lle mae arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn ymgysylltu'n dda gyda'r ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer codi cyrhaeddiad ac ymgysylltiad disgyblion bregus, byddant wedi'u harfogi'n well gyda strategaethau perthnasol i gyflwyno blaenoriaethau gwella eu hysgol.

| **Maes i'w wella 2** | **Ysgolion cryf a chynhwysol wedi'u hymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant** |
|---|---|

**Beth fydd y GCA yn ei wneud (yn ychwanegol i'r camau gweithredu penodol sydd wedi'u cynnwys ym mhob maes arall)?**

- Bydd y Cynllun Busnes yn ystyried deilliannau'r holl ymchwil a gomisiynir yn rhanbarthol a thystiolaeth ehangach i sicrhau bod y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a gymerir wedi'u hysbysu'n dda, i wella'r cynnydd a'r ddarpariaeth i ddysgwyr bregus;
- Gwreiddio a gloywi'r Strategaeth ranbarthol tegwch a Llesiant (sy'n cwmpasu strategaethau ar gyfer yr holl ddysgwyr bregus) i wella gweithio'n amlasiantaethol yn rhanbarthol, lleihau dyblygu, hyrwyddo gwell deilliannau i ddysgwyr a symleiddio'r dysgu proffesiynol a'r gefnogaeth i ysgolion a lleoliadau;
- Gweithredu, gloywi a monitro effaith y strategaethau rhanbarthol ar gyfer plant mewn gofal a phlant mwy abl;
- Cefnogi ysgolion i adeiladu ar lwyddiant y Rhwydwaith SEREN, i gyflwyno gwell darpariaeth i'n dysgwyr mwyaf abl;
- Darparu rhaglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol i'r holl ysgolion a lleoliadau sy'n ychwanegol, yn wahanol ac yn atodol i gynigion ALl unigol;
- Darparu adnodd pwrpasol a rhaglen dysgu proffesiynol bwrpasol ar gyfer arweinydd enwebedig codi cyrhaeddiad i ddysgwyr bregus yn yr holl ysgolion uwchradd ar gyfer 2019/2020;

- Gweithredu prosiect peilot gyda RADY (Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc dan Anfantais) mewn ysgolion uwchradd i wella'r ddarpariaeth i ddysgwyr bregus;
- Cefnogi gweithredu teclyn archwilio llesiant rhanbarthol i gefnogi gweithgaredd hunan-arfarnu ysgolion a gwella ymhellach y cynnydd a'r ddarpariaeth ar gyfer llesiant ym mhob lleoliad;
- Gweithio gyda phartner ymchwil i sefydlu effaith strategaethau llesiant, a datblygu canllawiau a deunyddiau astudiaethau achos i gefnogi gwelliant ar draws ysgolion;
- Gweithio gydag ymarferwyr a phartneriaid i ddarparu adnoddau a strategaethau sy'n gwreiddio llais y disgybl i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn bartneriaid yn eu dysgu eu hunain;
- Cefnogi polisïau a gweithdrefnau ALl unigol ar gyfer presenoldeb a gwaharddiadau, fel sy'n briodol; a
- Gweithio mewn partneriaeth â swyddogion cynhwysiant a/neu llesiant ALl a'r swyddog trawsffurfio anghenion dysgu ychwanegol, fel sy'n briodol, i weithredu strategaethau rhanbarthol yn defnyddio'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol.

**Sut fyddwn ni'n gwybod a fyddwn ni wedi gwneud cynnydd erbyn mis Mawrth 2020?**

- Bydd ymchwil cenedlaethol, rhanbarthol ac unigol yn seiliedig ar ysgolion yn cael ei ddefnyddio i hysbysu cynllunio, darpariaeth a gwerthuso effaith yr holl raglenni ymyrraeth yn y rhan fwyaf o ysgolion;
- Bydd nifer o ysgolion uwchradd yn cyflwyno cynlluniau grant o safon dda, gyda'r mwyafrif yn gwneud gwelliannau yng nghyflawniad ac ymgysylltiad disgyblion bregus yn unol â thargedau ysgolion;
- Lle mae ysgolion (yn benodol ysgolion uwchradd) yn ymgysylltu gyda'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol ar gyfer llesiant a thegwch, byddant yn cael eu cefnogi'n briodol i ddatblygu a gweithredu strategaeth llesiant a thegwch bwrpasol (i gynnwys y teclyn llesiant a chefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r agenda profiadau niweidiol mewn plentyndod), a fydd yn hysbysu cyfeiriad eu gwaith yn well er mwyn adnabod ac olrhain cynnydd yr holl ddysgwyr bregus a mesur effaith yr ymyraethau;
- Lle mae ysgolion yn ymgysylltu o fewn eu cynnig dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwaith y Comisiynydd Plant, bydd bron pob ysgol wedi'i harfogi'n addas i ddefnyddio llais y disgybl fel ffactor mewn gweithgareddau gwella ysgolion;
- Lle mae ysgolion uwchradd yn ymgysylltu'n dda gyda'r rhaglen SEREN ranbarthol, bydd gan ddysgwyr well cyfleoedd i fynychu prifysgol Sutton Trust; a
- Lle mae ysgolion yn mabwysiadu'r egwyddorion o fewn y strategaeth ranbarthol ar gyfer plant mewn gofal a disgyblion y gwyddys eu bod wedi'u mabwysiadu, bydd ganddynt well dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r strategaethau y gellir eu defnyddio i wella deilliannau a chynnydd ar gyfer y dysgwyr sydd wedi'u hadnabod.

| Maes i'w wella 3 | Mecanweithiau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn, yn cefnogi system hunan-wella |
|---|---|

**Beth fydd y GCA yn ei wneud?**

**A. Mecanweithiau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd**

- Wrth ymgynghori gyda phartneriaid, gloywi'r fframwaith ymyrraeth rhanbarthol a'r strategaethau cysylltiedig ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder i gynnwys disgwyliadau rhanbarthol, amserlenni a strategaethau i gyflymu cynnydd yr holl ysgolion, yn benodol y rheini sy'n derbyn y lefelau uchaf o gefnogaeth;
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth gadarn ac amserol mewn ysgolion a lleoliadau lle mae'r gwelliannau'n parhau'n rhy araf, felly rhannu gwybodaeth berthnasol gydag ALlau a Chyfarwyddwyr Esgobaethol i hysbysu, fel sy'n briodol, defnydd pwerau statudol ALl i gyflymu cynnydd;
- Adolygu a diwygio'r strategaeth ranbarthol ar gyfer gosod targedau a datblygu'r defnydd o ddata cynnydd disgyblion ar lefel ysgol, ALl a rhanbarthol ymhellach;
- Darparu cyfleoedd cefnogaeth a dysgu proffesiynol strwythuredig i arweinwyr ysgolion a'r gweithlu addysgol ehangach i fodloni'r gofynion asesu yn unol â threfniadau atebolrwydd cyfredol a newydd o fewn yr agenda diwygio;
- Rhoi cefnogaeth i ddatblygu a pheilota'r fframwaith hunan-arfarnu cenedlaethol a datblygu'r ymagwedd 'un cynllun' ymhellach gyda'r holl ysgolion i sicrhau bod prosesau cadarn ar gyfer hunan-arfarnu mewn ysgolion a lleoliadau;
- Bydd dysgu proffesiynol yn cefnogi'r prosesau hunan-arfarnu ysgol fel y bydd blaenoriaethau cynllun datblygu ysgolion yn adlewyrchu blaenoriaethau gwella ALl, fel sy'n briodol. Caiff cynnydd tuag at flaenoriaethau'r ysgol ei fonitro bob tymor o leiaf ac, os oes pryderon, caiff y rhain eu codi gyda'r ALl fel sy'n briodol ac addasir / cyflymir y gefnogaeth fel sydd angen;
- Ehangu'r ystod o wybodaeth am yr ysgol a ddefnyddir er dibenion atebolrwydd ar lefel ysgol, ALl a rhanbarthol;
- Darparu 'Cyngor Proffesiynol' yn seiliedig ar sail dystiolaeth gadarn i ALlau a chyfarwyddwyr esgobaethol yn rheolaidd er ystyriaeth; a
- Chefnogi a chynghori ALlau wrth gyflymu eu swyddogaethau statudol ar gyfer CYSAG a datblygu cynlluniau strategol addysg a Chymraeg unigol.

**B. Cefnogi system hunan-wella**

- Yn seiliedig ar ddeilliannau ymchwil allanol diweddar, parhau i fuddsoddi a chefnogi strategaeth ysgol y rhwydwaith dysgu a'r ymagweddau clwstwr i adeiladu capasiti, dysgu proffesiynol ac atebolrwydd;
- Peilota ystod o fodelau gwaith cyfoedion er mwyn datblygu arweinyddiaeth ysgol ac addysgeg effeithiol i gynnwys: rhyngwyneb cynradd/uwchradd ac adrannau craidd a di-graidd o fewn y cyfnod uwchradd;
- Datblygu ymhellach rwydweithiau o arfer proffesiynol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau ysgol hunanddewis yn seiliedig ar anghenion a chyfleoedd gwella cyffredin i ymgysylltu mewn methodoleg gweithred ar sail ymchwil i gefnogi eu gwaith;

- Yn unol â datblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol, gloywi'r ddarpariaeth, yr ymagweddau cyflwyno, effaith ac ymgysylltiad Dysgu Proffesiynol yn seiliedig ar yr ysgol; a
- Comisiynu ystod o werthusiadau pwrpasol, gan roi ystyriaeth i ddarganfyddiadau ac argymhellion o'r gwasanaethau a gomisiynir a'r adroddiadau a'r cylch gorchwyl eraill sydd ar gael fel bod y GCA yn parhau i ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth er mwyn cael yr effaith fwyaf ar gyflymu meysydd blaenoriaeth.

**C. Ffocws penodol ar wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr bregus**

- Ymestyn mynediad i'r rhwydwaith o ysgolion sy'n cefnogi dysgu proffesiynol a chyfarwyddyd er mwyn gwella'r cynnydd a'r ddarpariaeth ar gyfer yr holl grwpiau bregus;
- Bydd Ymgynghorwyr Her yn defnyddio ystod o ddata perfformiad a gwybodaeth am berfformiad blaenorol y disgyblion i gefnogi trafodaethau ar lefel ysgol ynghylch y broses gosod targed a sicrhau her briodol a darpariaeth ar gyfer yr holl grwpiau o ddysgwyr;
- Caiff trosolwg EASi eu diweddaru i gynnwys dadansoddiad grwpiau bregus (rhywedd, PYD, plant mewn gofal, anghenion addysgol arbennig, mwy abl, Saesneg fel iaith ychwanegol, lleiafrif ethnig Prydeinig) i gynorthwyo gyda gweithgaredd hunan-arfarnu'r ysgolion;
- Caiff cynnydd dysgwyr bregus / grwpiau eraill (fel sy'n briodol) ei drafod drwy fyrddau gwella addysg / cyfarfodydd ymyrraeth a'i herio pan fo angen; a
- Sefydlu fforwm newydd, i gynnwys grŵp ehangach o randdeiliaid rhanbarthol i adolygu a chymeradwyo cynllunio grant ysgolion.

**Sut fyddwn ni'n gwybod a fyddwn ni wedi gwneud cynnydd erbyn mis Mawrth 2020?**

**A. Mecanweithiau asesu, arfarnu ac atebolrwydd**

- Mae gweithredu'r strategaeth ddiwygiedig ysgolion sy'n peri pryder yn effeithiol yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth gadarn ac amserol mewn ysgolion a lleoliadau lle mae gwelliannau yn parhau'n rhy araf. Mae ALlau yn derbyn gwybodaeth werthfawr a pherthnasol i hysbysu'r defnydd amserol o'u pwerau statudol;
- Bydd yr holl ymgynghorwyr her yn gweithredu'r fframwaith ymyrraeth a strategaethau cysylltiedig yn effeithiol, gan sicrhau bod bron pob ysgol wedi'u harfogi i wneud o leiaf cynnydd cryf mewn modd amserol yn erbyn y blaenoriaethau yn eu cynlluniau datblygu ysgol;
- Lle bydd ysgolion, yn benodol ysgolion uwchradd, yn ymgysylltu'n dda gyda chefnogaeth, bydd llai o ysgolion angen y lefelau uchaf o gefnogaeth dros amser;
- Darperir cefnogaeth effeithiol i adnabod tanberfformiad mewn arweinyddiaeth a galluogi iddo gael sylw;
- Lle mae ysgolion sydd angen lefelau uchel o gefnogaeth (yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd) yn ymgysylltu'n dda gyda chyngor a chefnogaeth, cânt eu galluogi i osod targedau disgybl unigol uchelgeisiol, olrhain cynnydd disgyblion yn gywir dros amser a sicrhau cynnydd da ar gyfer bron pob disgybl dros amser;
- Lle mae ysgolion yn ymgysylltu gyda chefnogaeth a chyfarwyddyd, cânt eu harfogi'n addas i leihau amrywiad o fewn yr ysgol, felly arddangos gwelliannau dros gyfres ehangach o fesurau perfformiad yn unol â thargedau ysgolion unigol;
- Lle mae ysgolion sydd angen lefelau uchel o gefnogaeth (yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd) yn ymgysylltu'n dda gyda chyngor a chefnogaeth, cânt eu galluogi i sicrhau prosesau cadarn, pwrpasol ar gyfer hunan-arfarnu, sy'n hysbysu blaenoriaethau gwella ysgol cywir gan arwain at lai o amrywiad o fewn yr ysgol a gwell deilliannau i ddysgwyr dros amser; a

- Lle mae ALlau yn ymgysylltu'n dda gyda'r gefnogaeth a'r cyngor a ddarperir ar gyfer cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg a CYSAG, bydd yn eu cynorthwyo i fodloni eu gofynion statudol a'r blaenoriaethau o fewn y cynlluniau.

**B. Cefnogi system hunan-wella**

- Bydd diwylliant o gydweithio yn cael ei gyflymu gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n dda gydag ysgolion eraill i sicrhau gwelliant;
- Caiff model dal effaith diwygiedig ar gyfer gwaith yr ysgolion rhwydwaith dysgu a rôl y clystyrau eu datblygu gan adeiladu ar yr ymchwil a gomisiynwyd ac a wnaed yn 2018/19 i sicrhau gwerth am arian;
- Lle mae ysgolion yn sicrhau gwasanaethau cytundeb cefnogi llywodraethwyr y GCA cânt eu darparu â chefnogaeth a chyngor priodol i alluogi iddynt weithredu eu swyddogaethau statudol; a
- Lle mae ysgolion yn ymgysylltu'n dda gydag ystod o gyfleoedd rhwydweithio sy'n cynnwys gweithio gyda chyfoedion a chlystyrau o fewn a'r tu allan i'r rhwydwaith, mae ymarferwyr yn medru rhannu a datblygu ymarfer i wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu o fewn eu cyd-destunau eu hunain, yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd.

**C. Ffocws penodol ar wella'r deilliannau i ddysgwyr bregus**

- Lle mae ysgolion (yn benodol o fewn y cyfnod uwchradd) yn ymgysylltu'n dda gyda chyngor a chefnogaeth cânt eu galluogi i osod targedau disgybl unigol uchelgeisiol i ddysgwyr bregus, olrhain cynnydd disgyblion yn gywir a sicrhau cynnydd cryf i ddisgyblion dros amser; a
- Caiff yr holl gynlluniau grant datblygu disgyblion ysgol uwchradd eu cytuno gan banel cymeradwyo partner proffesiynol i sicrhau ymgysylltiad ehangach gyda rhanddeiliaid a pherchnogaeth o'r broses hon.

| Maes i'w wella 4 | Datblygu Busnes GCA |
|---|---|

**Beth fydd y GCA yn ei wneud?**

- Parhau i loywi'r model busnes ar gyfer y GCA sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod o fewn yr agenda diwygio rhanbarthol a chenedlaethol;
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau model ariannu mwy cynaliadwy ar gyfer y GCA sy'n cyd-fynd yn llwyr â chynllun gweithlu'r gwasanaeth a'r Cytundeb Cydweithio ac Aelodau sydd wedi'i ddiweddaru;
- Cynnal gweithlu safon uchel, wedi'i hysbysu'n dda, sy'n hyblyg ac wedi'i hysgogi sy'n ymgorffori gwerthoedd a gweledigaeth y GCA yn ei gwaith gyda'r ysgolion;
- Datblygu ymhellach effeithiolrwydd bwrdd cwmni GCA drwy sefydlu cyfarwyddwyr anweithredol newydd a gweithredu camau y cytunir arnynt drwy ddatblygiad proffesiynol diweddar;
- Sicrhau tryloywder y ffrydiau ariannu drwy gyhoeddi teclyn mapio grant rhanbarthol yn rheolaidd gyda'r nod o uchafu cyfraddau dirprwyo i ysgolion a lleoliadau;

- Datblygu ymhellach y teclyn mapio grant rhanbarthol i alluogi cwestiynu data yn fwy effeithlon ac effeithiol, dal yr effaith a'r gwerth am arian ar lefel ysgol, ALl a rhanbarthol;
- Gwella'r model gwerth am arian cyfredol gan archwilio ymhellach i'r modelau arfer gorau;
- Gloywi prosesau hunan-arfarnu mewnol fel eu bod yn canolbwyntio'n llawnach ar effaith gwaith timau gwasanaeth mewn ysgolion a lleoliadau a gwella deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth;
- Gwella argaeledd, hygyrchedd ac effeithlonrwydd data perfformiad a gwybodaeth ehangach i gefnogi gweithgaredd hunan-arfarnu effeithiol yn well a gwella cyflwyno gwasanaethau;
- Gwreiddio a hyrwyddo'r strategaeth cyfathrebu a marchnata gan sicrhau ymagwedd holistaidd i ymgysylltiad rhanddeiliaid;
- Cydweithio'n llawn gyda chonsortia eraill a sefydliadau haen ganol i wireddu effeithlonrwydd mewn datblygu rhaglenni, cyflwyno a rhannu arfer gorau.

**Sut fyddwn ni'n gwybod a fyddwn ni wedi gwneud cynnydd erbyn mis Mawrth 2020?**

- Caiff y model busnes, y cynllun gweithlu a'r prosesau cynlluniau ariannol eu gloywi fel eu bod yn adlewyrchu'n well y blaenoriaethau a'r adnoddau sydd eu hangen i barhau i gyflwyno gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd tuag at y blaenoriaethau o fewn y cynllun ac yn cyflawni gwerth am arian;
- Bydd cronfeydd data gwybodaeth busnes mewnol yn cefnogi prosesau hunan-arfarnu yn well, gan alluogi dadansoddiad mwy gwybodus ac amserol i staff GCA ac i ALlau i werthuso effaith y gwaith yn well mewn ysgolion a hysbysu blaenoriaethau gwella;
- Bydd model ariannu mynegol 3 blynedd wedi'i gytuno gyda'r 5 ALl sy'n sicrhau bod y model ariannu craidd wedi'i fantoli'n briodol ac y bydd y cytundeb cydweithio ac aelodau yn adlewyrchu'r camau a gaiff eu gwneud os bydd angen gweithredu prosesau rheoli newid;
- Bydd bwrdd y cwmni a'r pwyllgor archwilio a sicrwydd risg yn parhau i ymgymryd â rhaglen o ddatblygiad proffesiynol a hunan-arfarnu i sicrhau bod yr her a'r gefnogaeth a ddarperir yn galluogi i'r Cynllun Busnes a'r rhwymedigaethau statudol gael eu cyflwyno'n fwyaf effeithiol;
- Caiff prosesau hunan-arfarnu mewnol eu gloywi fel eu bod yn canolbwyntio'n llawnach ar effaith gwaith timau gwasanaeth mewn ysgolion a lleoliadau ar hyrwyddo gwella deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth;
- Caiff y teclyn mapio grant rhanbarthol ei wella i alluogi dadansoddiad haws ar lefel ysgol, ALl a rhanbarthol o effaith yr adnodd sy'n gysylltiedig â'r deilliannau disgwyliedig ac i hysbysu barnau gwerth am arian a blaenoriaethau gwella;
- Caiff y strategaeth cyfathrebu a marchnata ei gwreiddio gyda'r we, y fewnrwyd a, lle bo hynny'n briodol, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda i sicrhau hyrwyddo gwasanaethau yn well a diweddariadau ac ymgysylltiad gyda'n rhanddeiliaid; a
- Ymagweddau cenedlaethol i raglenni a sefydlir drwy gydweithio gyda chonsortia eraill. Adolygir cymariaethau cost gyda chonsortia neu sefydliadau tebyg eraill a gweithredir strategaethau. Diweddarir MTFP.

- Fe welwch fanylion pellach yn y Ddogfen Cyflwyno Manwl a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol 2019/2020.

# 4: Llywodraethu ac ariannu

Mae'r GCA yn ddarostyngedig i fodel llywodraethu cadarn sydd wedi'i danategu gan y Cytundeb Cydweithio ac Aelodau (CAMA). Caiff y GCA ei ariannu'n flynyddol o dair ffynhonnell: cyfraniadau craidd ALl, grantiau a chytundebau lefel gwasanaeth. Mae cynllun gwariant manwl yn cyd-fynd â'r Cynllun Busnes sydd wedi'i gysylltu'n gynhenid i'r holl gamau gweithredu sydd oddi fewn iddo. Mae trosolwg manwl o ddosbarthiad rhanbarthol y grantiau ar gael i'r holl ysgolion drwy'r teclyn monitro grant rhanbarthol.

## Monitro a gwerthuso

Cytunir ymlaen llaw ar y gweithgaredd adrodd blynyddol drwy bob un o'r grwpiau llywodraethu. Caiff cynnydd ar weithrediad ac effaith y Cynllun Busnes ei adrodd yn ffurfiol ar sail canol blwyddyn i'r Cyd-grŵp Gweithredol a Bwrdd y Cwmni; bydd hyn yn cynnwys arfarniad o'r cynllun rhanbarthol ac o ddogfen atodol pob ALl unigol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd yr adroddiadau hyn yn addas ar gyfer gweithgaredd craffu ar lefel ALl a chenedlaethol.

Drwy gydol y flwyddyn, bydd nifer o adroddiadau effaith interim yn gysylltiedig â'r ffrydiau gweithredu o fewn y Cynllun Busnes a gaiff eu hadrodd drwy bob un o'r grwpiau llywodraethu, drwy bwyllgorau ALl unigol (ar gais) a thrwy ddigwyddiadau Herio ac Adolygu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: adroddiadau ar ddeilliannau a chynnydd disgyblion, cynnydd ar ysgolion sy'n peri pryder, diweddariadau rheolaidd ar ddeilliannau/effaith o weithgaredd hunan-arfarnu rhanbarthol / ALl a strategaethau rhanbarthol, adborth o adolygiadau allanol, adroddiad gwerth am arian rhanbarthol blynyddol, Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Gyfarwyddwr, deilliannau o arolygon ysgolion a llywodraethwyr rhanbarthol. Bydd y GCA yn ymgysylltu'n llawn yn y trefniadau cenedlaethol sydd ar droed ar gyfer gwerthuso ac atebolrwydd.

## Rhagolwg Ariannol y GCA 2019-2020

| **Gwariant gros i gyflawni'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun busnes:** | **(£)**<br>**6,458,288** |
|---|---|
| **Ariennir gan:** | |
| Gyfraniadau craidd gan Awdurdodau Lleol: | (3,145,650) |
| Grantiau a dderbynnir gan Lywodraethu Cymru (amcangyfrif): | (2,901,582) |
| Cytundebau lefel gwasanaeth (amcangyfrif): | (411,056) |

| **Cyfraniadau craidd gan Awdurdodau Lleol 2019 - 2020** | **(£)** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 364,452 |
| Caerffili | 1,021,021 |
| Sir Fynwy | 420,433 |
| Casnewydd | 815,526 |
| Torfaen | 524,218 |
| **Cyfanswm** | **3,145,650** |

# 5: Dogfennau cefnogol ychwanegol

| Cyf | Dogfen |
|---|---|
| 1 | Dogfennau Atodiadau Awdurdodau Lleol 2019–2020 |
| 2 | Cynllun Busnes manwl 2019–2020 |
| 3 | Trosolwg o Adnoddau'r Rhanbarth 2019-2020 |
| 4 | Adroddiad Hunan-arfarnu Rhanbarthol (Crynodeb Gweithredol) |
| 5 | Cofrestr Risg GCA (Crynodeb Gweithredol) |
| 6 | Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol 2019–2020 |
| 7 | Cynlluniau Addysg Strategol Awdurdodau Lleol |
| 8 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

## Rhestr o'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio cyfrannau:

| | |
|---|---|
| **Bron y cwbl** | gydag eithriadau prin iawn |
| **Y rhan fwyaf** | 90% neu fwy |
| **Nifer** | 70% neu fwy |
| **Mwyafrif** | dros 60% |
| **Hanner** | 50% |
| **Tua hanner** | yn agos i 50% |
| **Lleiafrif** | dan 40% |
| **Ychydig** | dan 20% |
| **Ychydig iawn** | llai na 10% |

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council
Caerphilly County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Torfaen County Borough Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Monmouthshire County Council Sir Fynwy
Newport City Council Cyngor Dinas Casnewydd
EAS Education Achievement Service for South East Wales Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru

# Atebolrwydd



# Hygrededd

# Cydweithio